Urdd y Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth University
Guild of Students

**UMPA**
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**
**1af Mai 2012.**
**Yr Ystafell Bwyllgor**

---

**1.0 Yn bresennol**
Ben Meakin – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Geraint Edwards – Prif Weithredwr UMPA
Nansi George – Rheolwr Cyllid UMPA
Martyn Saycell – Rheolwr Gwasanaethau Aelodau UMPA
Jessica Leigh – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr
Alun Minifry – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr
Tom Burmeister – Swyddog Cymorth i Fyfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Tammy Hawkins – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Huw Diprose – Ymddiriedolwr Ôl-radd UMPA
Michael Buchannan - Ymddiriedolwr Israddedig UMPA
Stephen Meecham – Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Tim Smith – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

**1.1 Ymddiheuriadau**
Nansi George – Rheolwr Cyllid UMPA
Tom Burmeister – Swyddog Cymorth i Fyfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr

**1.3 Cyfarfod yn dechrau**
10am

**2. Datganiad Diddordeb**
Cododd Stephen Meecham (SM) fater Pensiwn Staff, a chytunodd y pwyllgor i'w symud i Unrhyw Fater Arall.

**3. Cyflwyniad gan y Cadeirydd**
Cafodd TS groeso i gyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan BM. Rhoddodd BM grynodeb o'r cyfnod Ionawr 2012 hyd at Fai 2012 gan roi'r diweddaraf am y gweithgareddau canlynol gan Swyddogion Sabothol: Ymgynghorydd Busnes Allanol i adolygu gwaith masnachol yr Urdd, cwblhau a chyflwyno cynllun Profiad Aber i UDRh y Brifysgol, Rag UMCA, Rygbi 7-bob-ochr, Cinio'r UA, Cynllun Strategol Chwaraeon, Cyfansoddiadau clybiau Chwaraeon a Chymdeithasau a chrynodeb o waith achosion.

**4. Cymeradwyo cofnodion a gynhaliwyd 31 Ionawr 2012**
Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2012 wedi'u cofnodi fel cofnod gwir.
Cynigwyd: JL
Eiliwyd: TS

**5. Cymeradwyo cofnodion Cyfarfodydd Brys a gynhaliwyd ar**
5.1 8fed Mawrth 2012
5.2 19 Mawrth 2012

Cynigwyd: JL

Eiliwyd: TS

**6. Adroddiad y Prif Weithredwr**
Rhoddodd GE grynodeb o'i Adroddiad y Prif Weithredwr a ddosbarthwyd yn flaenorol. Dylid fod wedi hysbysu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am y penderfyniad i gael adolygiad masnachol ar gost o £10,000.00. Esboniodd GE fod y penodiad wedi ei wneud ar ôl derbyn cyngor gan UCM. Mae hefyd yn dangos i UDRh y Brifysgol ein bod wedi ymrwymo i ddatrys y gweithgarwch masnachol. Gofynnodd TS i gyfathrebu gael ei ychwanegu fel eitem agenda ar wahân. Cytunwyd ar hyn gan y pwyllgor. Roedd adroddiad GE yn crynhoi'r sefyllfa bresennol o ran y Siop Goffi, Etholiadau'r Urdd a phenodi swyddogion newydd ar 25 Mehefin. Adroddodd GE fod y Brifysgol ar fin dechrau camau TUPE gyda gwasanaeth cwnsela'r Urdd.

**7. Swyddog Canlyniadau'r Etholiad**
Derbyniodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gopi o'r adroddiad a gyflwynwyd gan Al Powel. Cynigiwyd gan AM, eiliwyd gan HD. Cafwyd trafodaeth wedyn ar weddnewid y broses ar gyfer 2013 mewn perthynas ag egluro'r rheolau; defnyddio twitter a facebook; tariffau a dirwyon. Ystyried yswiriant ymddygiad swyddogion gydag yswirwyr yr Urdd.

**8. Cynllun Profiad Aber**
Nododd GE wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fod y ddogfen hon yn ddogfen weledigaeth y Brifysgol ar gyfer rôl Undeb y Myfyrwyr. Mae amserlenni'r ddogfen ar gyfer 2 i 5 mlynedd. Mae llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar gymorth ariannol addas gan y Brifysgol a masnachu llwyddiannus. Gwnaeth GE hi'n glir bod y cynllun Profiad Aber yn wahanol i'r cynllun masnachol a bydd yn dibynnu yn drwm ar ddangosyddion i asesu a monitro perfformiad.

**9. Adroddiad Ariannol**
Adroddodd GE fod yr Urdd yn disgwyl diffyg o £123,000.00 ar ddiwedd y flwyddyn fasnachu. Mae digwyddiadau mawr yn digwydd y semester hwn, fel y Ddawns Fai, rygbi 7-bob-ochr. Rhoddodd GE wybod i'r Bwrdd fod y Ddawns Fai yn gwneud elw a disgwylir gwerthu tua 2200 o docynnau.

Dosbarthwyd crynodeb o adroddiadau ariannol yn y cofnodion.

**10. Adroddiad Gwasanaethau Aelodau**
Rhoddodd MS grynodeb o'r Adroddiad Gwasanaethau Myfyrwyr a gyflwynwyd cyn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn crynhoi gweithgarwch cymdeithasau, chwaraeon, gwirfoddoli, rhoi cyngor, cwnsela, y dderbynfa a chyfathrebu.

**11. Adroddiad Masnachu UMPA Cyf**
Adroddodd GE wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am gynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Masnachol cyn y cyfarfod.

**12. Crynodeb o Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

**12.1 Pwyllgor Cyllid a Chyffredinol**
Cytunwyd arno gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**12.2 Pwyllgor Adnoddau Dynol**
Rhoddodd MS grynodeb o adroddiad Adnoddau Dynol. Awgrymodd TS y byddai'r rôl datblygu cyfathrebu ar y we yn fwy addas i fyfyriwr o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes

neu aelod o staff yn hytrach na Blwyddyn Ddiwydiannol Cyfrifiadureg. MS i ystyried hyn ar gyfer y dyfodol.

**13. Polisïau a basiwyd yng Nghyfarfodydd Cyffredinol 21/02/12 a 20/03/2012**

Wedi'u hadolygu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a chytuno arnynt.

**14. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

Dywedodd GE wrth y Bwrdd fod yna swydd ymddiriedolwr allanol yn wag a bod yr Athro John Grattan ar y panel penodi. GE i gysylltu â'r swyddfa Alumni i gynorthwyo â'r penodiad terfynol.

**15. Unrhyw Fater Arall**

**15.1 Cynnig yng Nghyfarfod Cyffredinol 1af Mai 2012.**
Rhoddodd GE wybod i'r bwrdd fod cynnig yn y CC ar 1af Mai i newid enw Urdd Myfyrwyr PA i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ac ehangu partneriaeth â Choleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr.

**15.2 Refferendwm**
Esboniodd GE a BM wrth y bwrdd fod cynnig i mewn sydd am newid model y Cyfarfod Cyffredinol presennol i Gynulliad.

**15.3 Pensiwn y Staff**
Soniodd GE wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fod gan holl staff yr Urdd yr hawl ar hyn o bryd i ymuno â Chynllun Pensiwn y Brifysgol. Trosglwyddir yr FRS17 o awdit y Brifysgol i archwilwyr yr Urdd.

**15.4 Cic Arall i'r Bar (Cyn-fyfyrwyr)**
Dywedodd GE y byddai gennym ddiddordeb cynnal digwyddiad fel hyn ar ôl adnewyddu'r Adeilad.

**15.5 Fideo-gynadledda**
Oherwydd logisteg, syniad posibl yw rhoi cynnig ar Skype o ran materion brys.

Dyddiad y cyfarfod nesaf.